Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Meinir Hurford**

**Aberystwyth**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

15/06/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr plant |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 3 Mai 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Yn gweithio tuag ato. Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn lleoliad dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a gwrandewir arnynt; mae pob cais i gyfathrebu yn cael ei werthfawrogi. Anogir y plant i siarad a mynegi eu hunain. Mae'r plant wedi ymgartrefu ac maent yn ffurfio ymlyniad emosiynol cadarnhaol. Teimla'r plant yn ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus. Perchir hawliau'r plant ac maent yn llunio perthnasoedd emosiynol arwyddocaol cadarnhaol. Mae'r plant yn dechrau cydweithredu, cymryd eu tro a rhannu, tra bod y plant iau yn dechrau datblygu synnwyr o’r da a’r drwg.

Mae'r gwarchodwr plant yn gyson yn ei hymagwedd at reoli ymddygiad. Mae'r gwarchodwr plant yn gosod ffiniau realistig ac yn defnyddio sancsiynau priodol o ystyried cyfnod datblygiad y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn ofalgar o’r plant ac yn ymatebol iddynt. Mae'r gwarchodwr plant yn creu ethos cadarnhaol lle mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae gan y plant fynediad at ddodrefn, offer, teganau a deunyddiau sy'n briodol ac yn addas i'w hanghenion. Mae amgylchedd y gwasanaeth yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan.

Nid yw'r gwarchodwr plant bob amser yn cydymffurfio â'r holl reoliadau sy'n berthnasol i arweinyddiaeth a rheolaeth ac nid yw bob amser yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir. Ar yr achlysur hwn, rydym wedi dyroddi maes i’w wella. Nodir y rhain yng nghefn yr adroddiad.

## Llesiant

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt. Mae'r plant yn fodlon ac yn dangos mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent yn dod yn gyfarwydd ag arferion fel helpu i dacluso adnoddau. Caiff teimladau, hoffbethau, casbethau ac anghenion y plant eu bodloni a'u diwallu wrth iddynt ffurfio perthnasoedd emosiynol arwyddocaol. Mae'r plant wedi mynd yn gyfeillion â'r plant eraill a theulu'r gwarchodwr plant ei hun. Mae'r plant yn sgwrsio'n agored, yn rhannu straeon, ac yn trafod eu teulu.  Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gadarnhaol ac mae'r plant yn dangos lefelau priodol o ddiddordeb ac ymgysylltiad yn eu chwarae a'u dysgu.

Gwrandewir ar y plant yn y lleoliad. Mae'r plant yn hapus, yn hyderus, ac yn gyfforddus yng ngofal y gwarchodwr plant, gan fynd ati i gael cysur a mwythau. Trwy gydol yr arolygiad, roedd y plant yn cael cyfleoedd chwarae rhydd; dewisodd y plant chwarae'n hapus gyda'r doliau, gan gymryd gofal wrth eu gwisgo. Gofynnodd y plant am gael chwarae gyda gweithgaredd edafu a didoli a gwrandawyd ar eu dymuniadau a'u hanghenion. Mae'r plant hynaf yn dechrau cydweithio trwy gyd-chwarae a chymryd eu tro. Mae gan y plant rai cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt.

Mae'r plant yn gyfforddus yng nghartref y gwarchodwr plant. Gwelsom fod gan y plant berthynas ymddiriedus â'r gwarchodwr plant. Gwelsom y plant yn mynd at y gwarchodwr plant yn hyderus gyda theganau i ddangos eu bod am i'r gwarchodwr plant chwarae gyda nhw. Mae'r plant yn dechrau teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Ar y cyfan, mae'r plant yn chwarae'n fodlon. Roedd ymddygiad y plant yn dda. Chwaraeant yn briodol gyda'r adnoddau ac ymatebant i'r gwarchodwr plant. Roedd y plant a welsom yn ymddwyn ac yn rhyngweithio yn unol â'u hoedran a chyfnod eu datblygiad. Mae'r plant yn gwrtais ac yn dangos parch. Mae'r plant yn ymgysylltu ac yn dangos parch at eiddo a phobl.

Mae gan y plant rai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, sydd yn eu galluogi i wneud rhywfaint o bethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Gwelsom y plant yn cael cyfleoedd i ddewis pryd yr oeddent yn barod ar gyfer amser byrbryd a pha fyrbryd yr oeddent ei eisiau o'u bocsys cinio. Câi'r plant eu hannog a'u canmol gan y gwarchodwr plant am fwyta'u byrbryd yn annibynnol.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu ei dealltwriaeth ac yn gweithio tuag at weithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu'r polisi rheoli ymddygiad ac yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol. Mae'n gwrando ar farn y plant ac yn ei pharchu, gan ddangos cynhesrwydd, caredigrwydd a natur ofalgar. Mae'n sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi amser tawel i'r plant orffwys neu gael amser tawel yn y lolfa.

Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i fwydo eu hunain ac mae hi'n helpu'r plant iau lle bo'n briodol. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol. Clywsom y gwarchodwr plant yn siarad â’r plant mewn modd caredig a thyner, clywsom hi’n esbonio i’r plant pam fod angen iddynt rannu’r adnoddau a chymryd eu tro. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i helpu i dacluso ac yn canmol y plant pan fyddant yn dilyn ei chyfarwyddiadau.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i dyletswyddau a'i chyfrifoldeb i adrodd am bryderon mewn perthynas â diogelu ac eglurodd i ni'r broses i'w dilyn os oedd ganddi unrhyw bryderon. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer amddiffyn plant. Roedd hi'n gallu nodi risgiau ac yn deall polisi amddiffyn plant y gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw'r gwarchodwr plant bob amser yn dilyn gweithdrefnau atal heintiau na gweithdrefnau hylendid trylwyr. Nid oedd y plant yn golchi eu dwylo cyn trin eu bwyd. Nid yw arferion newid cewynnau yn dilyn y polisi newid cewynnau. Sychodd y gwarchodwr plant y mat newid gan ddefnyddio chwistrell gwrthfacterol a golchi ei dwylo ond nid oedd yn gwisgo ffedog na menig tafladwy. Cyfeiriwyd at hyn hefyd mewn adroddiadau arolygu blaenorol.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar y plant ac yn parchu eu barn. Mae hi'n darparu ystod briodol o weithgareddau chwarae. Clywsom y gwarchodwr plant yn rhoi dewis i’r plant o’r hyn yr oeddent am chwarae ag ef “*ydych chi eisiau parhau i chwarae gyda'r pramiau a'r babis neu hoffech chi chwarae gyda rhywbeth arall?"* Mae'r gwarchodwr plant yn gwrando ar yr hyn y mae'r plant eisiau chwarae ag ef. Mae'r gwarchodwr plant yn chwarae ochr yn ochr â'r plant ac yn modelu ymddygiad cadarnhaol. Mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i ddysgu'r iaith Gymraeg gan ddysgu lliwiau, rhifau, cyfarchion a siapiau iddynt.

## Yr Amgylchedd

Mae cartref y gwarchodwr plant yn glyd, yn gynnes ac yn groesawgar. Mae'r amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda gwresogi ac awyru da yn dibynnu ar y tymheredd. Mae gan y gwarchodwr plant restrau gwirio y mae'n eu defnyddio fel asesiadau risg i nodi risgiau ar gyfer y safle a'r gweithgareddau. Fodd bynnag, nid oes ganddi asesiad risg ar gyfer lleihau risgiau i blant oherwydd bod ganddi anifeiliaid anwes ac nid yw'r asesiadau risg yn nodi sut y gweithredir ar risgiau.

Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn cwblhau driliau tân yn rheolaidd a'i bod yn cofnodi'r rhain yn ei dyddiadur. Nid yw'r cofnodion ar gyfer driliau tân yn cynnwys manylion trylwyr. Mae gan y gwarchodwr plant weithdrefnau brys ar waith, gan gynnwys ffurflenni cydsyniad meddygol brys ar gyfer pob plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel. Er enghraifft, mae'n cadw'r drws ffrynt ar gau yn ddiogel ac yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau, megis gwiriadau i'r boeler. Mae gatiau diogelwch wedi'u gosod lle bo angen.

Mae gan y gwarchodwr plant ddigon o le chwarae dan do i'r plant symud yn rhydd, ac mae wedi trefnu'r amgylchedd yn dda fel ei fod yn darparu ystod dda o gyfleoedd chwarae i'r plant. Mae hi'n darparu amgylchedd sy'n cefnogi annibyniaeth y plant ac yn darparu gweithgareddau chwarae addas. Mae adnoddau ar gael i'r plant o'r storfa deganau a chaiff rhagor o deganau eu storio mewn storfa, y mae'r gwarchodwr plant yn mynd ato ac yn ei ddefnyddio i gylchdroi'r teganau sydd ar gael i'r plant. Ar hyn o bryd, nid yw'r plant yn defnyddio'r rhain yn rhydd oherwydd y pandemig, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu glanhau'n drylwyr ar ôl eu defnyddio. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu rhai adnoddau, megis doliau a llyfrau, i hybu chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach a'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym fod gan y plant fynediad rhydd i'r man awyr agored, ond yn ystod ein hymweliad, ni welsom y plant yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored er y byddai'r tywydd wedi caniatáu i'r plant dreulio peth amser chwarae yn yr awyr agored. O ganlyniad, collodd y plant gyfleoedd i ymestyn eu gwybodaeth a'u datblygiad yn yr awyr agored.

Mae amrywiaeth o deganau ac offer ar gael i'r plant, sy'n lân ac sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Gwelsom fod gan y plant nifer o adnoddau i ddewis o'u plith megis play-doh, jig-sos, crefft, pêl ar dennyn, hwla-hŵps, tipi, dolis, pêl-fasged, cerddwyr, teganau i'w gyrru, jumperoo, gweithgareddau edafu, ceir, anifeiliaid a blociau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Rydym wedi cyhoeddi meysydd i'w gwella mewn perthynas â chadw cofnodion o bresenoldeb plant. Mae gan y gwarchodwr plant hefyd argymhellion na weithredwyd arnynt ers yr arolygiad diwethaf.

Mae gan y gwarchodwr plant ddatganiad o ddiben, sy'n esbonio ei lleoliad gwarchod plant ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau cofnodion cywir o wybodaeth bersonol y plant ond nid yw'n cofnodi'r amserau y mae'r plant yn mynychu'r lleoliad. Yn ystod ein hymweliad, roedd plentyn yn ymweld â chartref y gwarchodwr plant ond nid oedd cofnod o'r ymweliad hwn gan nad yw ymwelwyr â'r lleoliad bob amser yn cael eu cofnodi.

Mae gan y gwarchodwr plant yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a dogfennau cerbyd priodol ar waith. Mae ganddi ddealltwriaeth dda o'i rôl mewn perthynas â diogelu data, cyfrinachedd a chadw data ac mae hi'n sicrhau bod gwiriadau dilys gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o aelodau'r cartref. Mae'r gwarchodwr plant ar hyn o bryd yn aros i un gwiriad gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd ddychwelyd ar gyfer aelod o'r cartref. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwarchodwr plant bellach wedi cofrestru gyda swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth ac wedi cwblhau hyfforddiant radicaleiddio Prevent ar-lein. Mae ganddi bolisïau effeithiol ar waith, a gwelsom fod y rhain yn bennaf yn cael eu gweithredu'n ymarferol.

Mae trafodaeth gyda'r gwarchodwr plant yn dangos ei bod yn agored i syniadau newydd. Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu ei dull hunanwerthuso ac yn llunio adolygiad blynyddol o ansawdd y gofal. Mae ganddi system ar waith ar gyfer casglu safbwyntiau'r rhieni. Mae gan y gwarchodwr plant bartneriaethau cadarnhaol â'r rhieni. Mae'n sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn dda ac mae'n rhoi gwybodaeth dda i'r rhieni trwy drafodaethau rheolaidd. Cadarnhaodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus ar y gofal a roddir. Fodd bynnag, nid oes gan y gwarchodwr plant weithdrefn ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth pan fo pryderon am gynnydd neu ddatblygiad y plant oherwydd nad oes cofnodion ar gyfer cynllunio gweithgareddau nac ar gyfer cofnodi targedau ac anghenion datblygiadol plant unigol.

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei chyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae hi'n gweithio tuag at rai elfennau o Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg, er enghraifft, yn ystod yr arolygiad, roedd y gwarchodwr plant yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd ac eglurodd y gwarchodwr plant ei bod yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda'r plant. Yn ystod ein hymweliad, esboniodd y gwarchodwr plant ei bod yn paratoi cinio iach i rai o'r plant fel brechdanau, pasta, pitsa, bysedd pysgod tra bod yn well gan eraill ddod â phecyn bwyd ac mae'n annog y rhieni i ddarparu bocsys bwyd iach.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

A1 Ystyried ffyrdd o gofnodi blaengynllunio a monitro cynnydd y plant;

A2 Sicrhau bod y plant bob amser yn cael mynediad i'r amgylchedd awyr agored;

A3 Defnyddio menig a ffedogau untro wrth ddelio â hylifau corfforol fel newid cewynnau;

A4 Byddai'r gwarchodwr plant yn elwa ar hyfforddiant i barhau i ddatblygu asesiadau risg fel dogfen waith a chynnwys anifail anwes y teulu fel rhan o'r asesiad risg;

A5 Sicrhau y cofnodir pob ymwelydd gan gynnwys y plant ar gofnodion ymwelwyr;

A6 Parhau i ddatblygu trefniadau cadw cofnodion o ymarferion tân i gynnwys manylion perthnasol.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o’r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |
| 25 (c) | Dim asesiadau risg ar waith | Cyflawnwyd |
| 38 (1) (e) | Ni chynhaliwyd ymarferion tân | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 30 | Nid yw'r person cofrestredig yn cydymffurfio oherwydd nad yw'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod dyddiol o enwau'r plant perthnasol, eu horiau presenoldeb ac enwau'r bobl a oedd yn gofalu amdanynt. | Newydd |

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/08/2022